

Gwobr arloesi ym maes masnachu prawf

Mehefin 2020

Cefndir

Gan ystyried yr adborth a'r ymchwil ehangach yng Ngham 1, ym mis Medi 2020 bydd prosiect Arsyllfa yn lansio dull 'gwobr arloesi' ar gyfer elfen 'masnachu prawf' ein cais.

Yng ngoleuni'r ddau sylw a dderbyniwyd gan ymgeiswyr posibl yn ogystal â realiti Covid-19 ar lawr gwlad, credwn fod hyn yn darparu ymyriad tymor byr (o fewn amserlen y prosiect) a dull o sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor canolig i'r hirdymor (e.e. strwythur blynyddol ar gyfer y gwobrau).

Yn yr un modd ag y mae ymyriadau eraill yr UE wedi edrych ar 'fasnachu prawf', gan gynnwys y dull o ganiatáu i bobl brofi syniad busnes ar gyfer cyfnod cyfyngedig o amser (e.e. ['cynllun masnachu prawf'](#)), bydd y 'wobr arloesedd' yn gweithredu fel galwad agored am syniadau sydd wedi'u hanelu at 'feithrin mentergarwch yn y sir'.

Bydd y 'wobr arloesi' cyn-fasnachol hon yn ceisio nodi syniadau a hwyluso adnoddau ar gyfer eu datblygu.

Nid bwriad y papur hwn yw ystyried pob agwedd ar y wobwr arloesi yn drylwyr, ond yn hytrach darparu amlinelliad o resymeg a man cychwyn ar gyfer trafodaeth bellach. Caiff ei nodi ar ffurf Holi ac Ateb.

D.S. Mae cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol a symud Covid-19 wedi effeithio ar y prosiect, ac wedi golygu ein bod wedi gorfod addasu a newid ein dull yn sylweddol. Mae rhagor o ansicrwydd yn y misoedd nesaf yn golygu bod angen i ni newid ein methodoleg, ailystyried ein blaenoriaethau a'n hamcanion, a bod yn hyblyg ac yn ystwyth. Bydd Cam 2 yn parhau i ystyried hyn wrth i ni ddatblygu'r dull hwn o dreialu'r wobwr arloesi hon ymhellach.

Beth yw'r wobwr arloesi?

Bydd y cysyniad o fasnachu prawf yn sail i'r wobwr arloesi. Mae masnachu prawf yn meithrin datblygiad cyn-fasnachol, gan roi cymorth i syniadau sydd erioed wedi'u datblygu yn sir Gaerfyrddin o'r blaen. Bydd y wobwr arloesi hon yn anelu at gynnig cyfres o gymhellion, gyda'r wobwr derfynol yn cael ei rhoi i'r cyntaf i fodloni nod diffiniedig neu bwy bynnag fydd y mwyaf effeithiol i wneud hynny.

Yn ddelfrydol, bydd y wobwr arloesi yn gatalydd i entrepreneuriaid o bob oed gyflwyno syniadau newydd, na fyddent fel arall yn cael y modd i'w datblygu ar lefel cyn-fasnachol, na'r llwyfan ar gyfer ei hyrwyddo.

Y wobwr - a fydd yn cynnwys cronfa a chymorth arall - fydd yr hwylusydd, a fydd yn gweithredu fel hedyn arian ar gyfer cysyniadau sy'n rhagorol ar bapur, ond nad ydynt wedi cael eu profi ymhellach eto, ac sydd angen y cyllid a'r canllawiau sylfaenol hynny i'w symud oddi ar y dudalen a'u 'profi' ar lefel cyn-fasnachol.



Mae grŵp cynghori'r prosiect Arsyllfa eisoes yn gyfarwydd iawn â chysyniadau masnachu prawf a datblygu cyn-fasnachol ac felly bydd yn gallu ychwanegu ei ddirnadaeth a'i arbenigedd ei hun drwy gydol y cyfnod o feirniadu gwobrau yn ogystal ag ar ôl dyfarnu'r wobr.

Yn gryno, gallai'r wobr arloesi helpu partneriaethau busnes, gallai fod yn ffordd o dreialu syniadau o ran gwytnwch busnes, datblygu cadwyni cyflenwi newydd, neu gychwyn cynhyrchion, strwythurau cefnogi a gwasanaethau newydd. Ar ben hynny, gallai'r wobr arloesi helpu i ddatblygu syniad, gwasanaeth neu gynnyrch sydd wedi cael llwyddiant mewn manau eraill, ond mae angen ei ddatblygu ymhellach i'w wneud yn berthnasol yng nghydestun sir Gaerfyrddin.

Beth yw nod y wobr arloesi, y tu hwnt i'r cysyniad o fasnachu prawf?

Mae ardaloedd gwledig yn wynebu nifer o heriau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, ac fel y mae'r Arsyllfa wedi nodi, mae'r heriau hyn yn datblygu mewn ffordd benodol a byddant yn cael gwahanol effeithiau yn sir Gaerfyrddin, o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU a thu hwnt.

Gyda'r holl heriau hyn yn gefndir iddi, bydd y wobr arloesi yn cynnig cymhelliad i'r rheini (yn enwedig pobl ifanc) sydd ag ysbryd entrepreneuriaidd i ddatblygu syniad da a allai gael effaith ar yr economi leol a galluogi cymunedau lleol i ffynnu.

Efallai y byddai'n ddoeth cysylltu'r wobr â Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru, sy'n dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisi cyhoeddus, ac mewn llawer o achosion, buddsoddiad gan y sector preifat yng Nghymru.

Os daw'r Wobr Arloesi yn ddigwyddiad blynyddol, bydd hefyd yn gymhellant i entrepreneuriaid y dyfodol, a all ddechrau meithrin syniadau da sy'n bodoli eisoes gyda'r bwriad o wneud cais i'r gronfa yn y dyfodol.

Y cysyniad allweddol wrth wraidd y wobr hon yw y bydd yn gwobrwyo ac yn cefnogi syniadau arloesol, y bydd ganddi'r potensial i greu newid, cyflawni arbedion effeithlonrwydd, a hyrwyddo partneriaethau trawsnewidiol.

Ar lefel genedlaethol, bydd y wobr arloesi yn creu cyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach o bob cwr o'r wlad.

Beth sy'n cael ei gynnig?

Bydd pob gwobr yn is na'r trothwy caffael £5,000 er mwyn sicrhau nad oes problemau caffael o ran dyfarnu pob gwobr. Yn ogystal â'r wobr ariannol, gallai'r pecyn hefyd gynnwys:

- Cyfleoedd mentora gyda phobl fusnes leol gydnabyddedig yn darparu cynngor a chymorth
- Cymorth i gael gafael ar gyllid pellach
- Ystyried cymorth o fath arall gan fusnesau lleol, megis gofod desg, neu gymorth ar y we, lle bo'n ymarferol cynnig hynny



Mae union natur y wobwr a'r cynnig ehangach yn cael ei gwblhau gan dîm y prosiect ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gadarnhau yn dilyn cadarnhad gan Gyngor Sir Caerfyrddin bod y dull gwobrwyo arloesedd yn dderbyniol.

Chwalu camsyniadau

Mae llawer o gamdybiaethau cyffredin ynglŷn â pha wobrau i'w herio, pa bryd i'w defnyddio, a beth y gallant ei gyflawni. Mae dyfyniad isod o ddogfen 'Gwobrau her: *Canllaw ymarferol*' NESTA, sy'n gwrthod nifer o'r rheini:

Camsyniad 1: Maen nhw i gyd yr un fath

Defnyddir y termau 'gwobr', 'cystadleuaeth' a 'her' yn gyfnewidiol i ddisgrifio gwahanol fathau o raglenni. Mae gwobrau her yn ysgogi ac yn gwobrwyo camau i ddatrys problem benodol, yn hytrach na chyflawniadau yn y gorffennol. Er enghraifft, enillodd Charles Laveran ran o Wobr Breant am ei waith yn dod o hyd i driniaeth ar gyfer colera. Ond yn 1907 enillodd Wobr Nobel mewn Ffisioleg neu Feddygaeth fel cydnabyddiaeth am ei waith yn y gorffennol i drin malaria.

Camsyniad 2: Dim ond ar gyfer technoleg mae gwobrau her yn gweithio

Gall gwobrau her ysgogi a chefnogi'r broses o ddatblygu atebion a ysgogir gan wasanaethau newydd i faterion cymdeithasol. Mae Gwobrau Rhoi Heriau NESTA yn ysgogi arloesedd cymdeithasol drwy roi amser, sgiliau ac adnoddau i ddelio â dau fater cymdeithasol penodol: mynd i'r afael â theimlo'n ynysig ymysg pobl hŷn a lleihau gwastraff.

Camsyniad 3: Yr enillydd sy'n bwysig

Mae'r ateb buddugol yn aml yn cael llawer o sylw, ond mae mwy i'r gwobrau her na dim ond yr enillydd. Drwy ddyfarnu gwobr, gallwch gefnogi datblygiad carfan o arloeswyr gan gryfhau a phrofi cyfres o atebion ar yr un pryd. Ar gyfer yr Ansari XPRIZE, gwariodd 26 o dimau \$100 miliwn yn mynd ar drywydd gwobr o \$10 miliwn, gan roi hwb i'r diwydiant gofod masnachol. Mae gwobrau her hefyd yn gyfle i sbarduno newid ehangach drwy godi ymwybyddiaeth, llywio marchnadoedd a goleuo gwaith rheoleiddio.

Camsyniad 4: Mae'r gwobrau'n syml: cyhoeddwch a gadewch i'r arloeswyr ddod atoch chi

Cyn lansio, mae proses ymchwil a dylunio sydd wedi'i hystyried yn ofalus yn hanfodol er mwyn sicrhau y bydd y wobwr yn effeithiol.

Beth yw'r meini prawf cymhwysedd?

Byddai'r gystadleuaeth yn agored i bobl sy'n byw yn sir Gaerfyrddin, gan gynnwys myfyrwyr y mae eu prif gyfeiriad yn sir Gaerfyrddin.

Nid yw'r gystadleuaeth wedi'i bwriadu ar gyfer gweithwyr unigol sy'n hyrwyddo syniad ar ran cwmnïau neu sefydliadau mawr. Byddai ymgeiswyr sy'n rhedeg eu cwmni eu hunain (rhai sy'n gyfarwyddwyr cofrestredig) yn gymwys i wneud cais.



Byddai ceisiadau gan grŵp o entrepreneuriaid lle maent yn gweithio mewn partneriaeth ar syniad/prosiect ar y cyd yn cael eu derbyn (a'u hannog). Mae croeso i unigolion neu grwpiau gyflwyno mwy nag un syniad.

Dim ond os cânt eu cyflwyno'n gywir, gan gyflawni'r holl ofynion mynediad, y caiff ceisiadau eu hystyried.

Beth yw'r broses ymgeisio/mynediad a'r gofynion dethol?

Rhaid i'r gystadleuaeth fod yn gadarn, yn effeithiol ac yn hygyrch. Y nod yw creu cynllun sy'n cymell pobl i gymryd rhan, heb broses ymgeisio feichus sy'n eu hannog i beidio ag ymgeisio, ond gan wneud y profiad yn un ymestynnol a heriol.

Caiff ceisiadau eu cyflwyno drwy gyfeiriad e-bost penodol yr Arsyllfa, a darperir cyfarwyddiadau clir ar sut i wneud cais, a rhoddir enghreifftiau i dywys ymgeiswyr. Bydd ceisiadau yn Gymraeg a/neu Saesneg yn cael eu derbyn.

Dyma rai enghreifftiau o'r gofynion cais y gellid ystyried eu cynnwys:

- Cap ar gyfrif geiriau.
- Teitl clir ar gyfer y cofnod
- Disgrifiad o'r prosiect/syniad (cynnyrch neu wasanaeth)
- Nodau sydd wedi'u diffinio'n glir - beth mae'r cynnyrch/gwasanaeth wedi'i gynllunio i'w gyflawni?
- Cynnydd hyd yn hyn a cherrig milltir yr anelir atynt
- Esboniad yn nodi pam mae'r cynnyrch/gwasanaeth yn arloesol
- Disgrifiad o berthnasedd y cynnyrch/gwasanaeth i'r ardal leol
- Amlinelliad o sut y gallai'r prosiect/syniad fod yn berthnasol y tu hwnt i sir Gaerfyrddin
- Esboniad o sut y bydd y cyllid a'r cymorth ehangach yn galluogi'r ymgeisydd i fynd â'r cynnyrch/gwasanaeth yn ei flaen a beth mae ef yn ei gredu yw canlyniadau ennill y wobwr
- Disgrifiad o sut mae'r prosiect yn bodloni'r Nodau Llesiant

Gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i helpu i hyrwyddo cystadlaethau yn y dyfodol. Bydd disgwyl i'r enillydd hefyd ysgrifennu darn byr ar gyfer gwefan yr Arsyllfa, yn egluro sut mae'r wobwr wedi helpu i ddatblygu syniad y prosiect buddugol.

Pwy fydd yn beirniadu'r ceisiadau a sut y bydd hyn yn digwydd?

Bydd system sgorio yn cael ei defnyddio i asesu a graddio pob elfen o'r cais yn deg.

Bydd panel prosiect yr Arsyllfa yn cynnull panel beirniadu, a fydd yn cynnwys grŵp cynghori'r prosiect. Bydd y panel beirniaid profiadol yn gyfrifol am asesu rhestr fer o geisiadau a phenderfynu ar yr enillydd/wyr terfynol.

Efallai y bydd y panel beirniadu yn dymuno cwrdd â'r ymgeiswyr mewn proses gyfsweld arddull Dragon's Den i drafod y cynigion sy'n cael eu cyflwyno ymhellach, cyn gwneud penderfyniad terfynol. Yn yr achos hwn, gofynnir i ymgeiswyr ar y rhestr fer baratoi cyflwyniad/cynnig byr. Bydd canllawiau a chymorth yn cael eu darparu.

Os bydd y mesurau cyfyngiadau symud dal yn berthnasol, ystyrir cynnal y rhan hon o'r broses ar ffurf rithwir.

Beth yw'r cyfnod amser arfaethedig?

Gweithgaredd	Mis
Galw am geisiadau	Medi 2020
Dyddiad cau	Hydref 2020
Rhestr fer	Hydref 2020
Cyfweliadau Dragon's Den	Tachwedd 2020
Cyhoeddi'r enillydd	Tachwedd 2020

Sut byddai'r gystadleuaeth gwobr arloesi yn cael ei hyrwyddo?

Yr amcan fyddai cyrraedd cynifer o bobl â phosibl ledled sir Gaerfyrddin. Bydd Four Cymru yn drafftio strategaeth farchnata, a fydd yn cynnwys brandio a dylunio, syniadau ar ddefnyddio'r cyfryngau traddodiadol a chymdeithasol, a gweithio gyda phartneriaid addysgol, cyhoeddus, trydydd sector a busnes Arsyllfa i hyrwyddo'r gystadleuaeth.

Enghreifftiau o gynlluniau cyllid cystadleuol eraill i'w defnyddio fel ysbrydoliaeth

- [Rhaglen Arloesi Gwledig Quilter Cheviot](#) - Lanswyd Rhaglen Arloesi Gwledig Quilter Cheviot y llynedd gyda'r nod o helpu i gynnal cymunedau gwledig a 'sichau eu bod yn parhau i berfformio am genedlaethau i ddod'. Mae'r gystadleuaeth yn agored i fusnesau a sefydliadau sydd 'mewn cyfnod tyngedfennol yn eu taith, lle bydd cymryd rhan yn y rhaglen a derbyn cyllid yn eu galluogi i gymryd cam pwysig ymlaen'. Dyfernir £30,000 i un enillydd.
- [Cronfa Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd](#) - Mae'r Gronfa Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd, sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth yr Alban, yn agored i sefydliadau, elusennau ac unigolion, gan gynnig cyllid grant o hyd at £75,000. Mae gan y Gronfa ddau nod, sef hyrwyddo datblygu sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth yn y prif sector amaethyddol; a sichau gwelliannau ymarferol o ran cystadleurwydd amaethyddol, effeithlonrwydd adnoddau, perfformiad amgylcheddol a chynaliadwyedd.
- [Be Nesa Llŷn](#) - Mae Be Nesa Llŷn yn fodel buddsoddi mewnol ym Mhen Llŷn sy'n cynnig benthyciadau di-log o hyd at £5,000 i helpu busnesau lleol i ddatblygu, yn ogystal â chynghori a mentora. Mae 11 o fusnesau lleol yn darparu'r buddsoddiad.
- [Banc Cymunedol Robert Owen](#) - Mae Banc Cymunedol Robert Owen yn y Drenewydd yn cynnig benthyciadau ar gyfer datblygu busnesau sy'n bodoli eisoes a dechrau rhai

newydd. Mae'n sefydliad dielw sy'n sicrhau buddsoddiad lleol ac arian cyhoeddus i ddarparu benthyciadau.

- [Cymdeithas Cynnal a Chefnogi Cefn Gwlad](#) - Mae Cymdeithas Cynnal a Chefnogi Cefn Gwlad (neu 4CG) yn sefydliad cydweithredol a sefydlwyd i hyrwyddo datblygu cymunedol drwy adfywio Aberteifi a'r cyffiniau.
- [Cronfa Arloesi Arfor](#) - Mae hon yn rhaglen gwerth £2 filiwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n treialu dulliau arloesol o hyrwyddo entrepreneuriaeth, twf busnesau, gwytnwch cymunedol a'r iaith Gymraeg yn rhanbarth 'Arfor' Gorllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, ac Ynys Môn). Mae'n canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny lle mae'r economi sylfaenol ac amaethyddol yn hanfodol bwysig ac mewn trefi marchnad a phrifysgol lle mae incymau isel yn parhau'n broblem. Mae'r cyllid yn hwyluso dulliau newydd ac arloesol o gefnogi datblygu economaidd yn y rhanbarth.
- [Heriau NESTA](#) - Mae'n bodoli i ddylunio a chynnal gwobrau her sy'n helpu i ddatrys problemau dybryd lle mae atebion yn brin. Y diben yw cymell pobl i ddatrys problemau, a helpu eu cymunedau i ffynnu drwy ysbrydoli'r grwpiau mwyaf amrywiol o bobl ledled y byd i weithredu. Amcan NESTA yw cefnogi'r syniadau 'mwyaf beiddgar a dewr' i ddod yn rhai go iawn, a sicrhau newid tymor hir i hybu cymdeithas a llunio gwell dyfodol i bawb.